

### **Iaith, Llythrennedd a Chyfathrebu**

Prif ffocws ar y nofelau Cymraeg a Saesneg.

**Cymraeg:** Bwli a Bradwr gan Brenda Wyn Jones.

**Saesneg:** Street Child gan Berlie Doherty.

**Llafaredd:** Chwarae rol, Trafodaeth dosbarth / grŵp / pâr, mynegi barn, perfformio.

**Ysgrifennu:** Portread, Dyddiadur, Sgript, Adolygiad, Erthygl Papur Newydd.

**Darllen:** Darllen a deall, Dehongli testunau a chwilio am wybodaeth yn annibynnol, Dehongli nofelau.

### **Dyniaethau**

Prif ffocws Dyniaethau y tymor yma fydd hanes y Chwarel.

#### **Bydd y plant yn cael cyfle i:**

- Astudio hanes eu cyndeidiau.
- Dysgu am fywyd yng nghyfnod y chwarel ac Oes Fictoria.
- Edrych ar chwareli yr ardal.
- Sut mae chwareli wedi newid i fod yn lefydd atyniadaol? e.e Zip World.
- Teithiau addysgol i Amgueddfa Lechi Llanberis, Castell Penrhyn.
- Ymweliad gan aelodau o'r archifdy yng Nghaernarfon.

### **Rhifedd a Mathemateg**

Defnyddio sgiliau rhif. Gwerth lle, adio, tynnu, lluosu a rhannu. Symiau gwrthdro. Defnyddio cyfrifiannell i ddatrys problemau. Arian ac Amser.

Datrys problemau - defnyddio ffeithiau rhif a'r berthynas rhwng rhifau. Cyfrifo gan ddefnyddio dulliau meddwl ac ysgrifenedig.

Cyflwyno data gyda graffiau a siartiau. Darllen a dehongli data trwy graffiau a siartiau.

TTRockstars i ymarfer tablau a Mathletics i ymarfer amrywiaeth o sgiliau rhifedd (20 munud dyddiol)



Treftadaeth - Y Chwarel  
Tymor yr Hydref 2021  
Blwyddyn 5 a 6



### **Celfyddydau Mynegiannol**

#### **Celf a Chrefft:**

Astudio gwaith arlunwyr o Gymru; lfor Pritchard, Aneurin Jones ac Owain Fôn Williams gan efelychu rhai o'i lluniau.

#### **Perfformio:**

Cyfle i berfformio rhanau o'r nofelau Cymraeg a Saesneg.  
Defnyddio sgrin werdd er mwyn actio sgript.  
Cyfle i greu rhaglen radio ysgol eu hunain.

#### **Cerdd:**

Cyfansoddi cerddoriaeth creadigol ar y thema y chwarel.  
Dysgu caneuon yn dilyn y cynllun CanSing.

### **Iechyd a Lles**

Pêl-droed - cyfres o wersi gyda'r hyfforddwr Gethin Jones.  
Nofio - cyfres o wersi nofio i flwyddyn 5 a 6 Dosbarth Yr Wyddfa yn unig.

Athletau - amryw o ymarferion athletau ac ymarferion cylched gyda'r Urdd.

Ymarferion meddwlgarwch a yoga trwy ddilyn rhaglen Go Noodle.

Rhedeg y trac dal i fynd.

Cyfres o wersi meddylfryd o dwf: Dysgu'r pwysigrwydd o ddal ati a pheidio rhoi fyny.

**Pwysig: Bydd gwersi nofio pob dydd Mawrth a gwersi ymarfer corff pob dydd Mercher a Gwener - cofiwch ddod â dillad addas a photel ddŵr ar y dyddiau yma os gwelwch yn dda.**

### **Gwyddoniaeth a Thechnoleg**

#### **Grymoedd a Ffrithiant**

Sut mae pethau'n gweithio. Edrych ar rymoedd o wahanol fathau – ffrithiant a mesuryddion grymoedd. Astudio y ffyrdd gall grymoedd effeithio ar symudiad a sut y gellir eu cymharu.

**TGCh:** Casglu data, creu gwefan gan ddefnyddio Adobe Spark, defnyddio Sgrin Werdd, animeiddiad, codio trwy ddefnyddio rhaglen Scratch. Rhifedd trwy Mathletics a TTRockstars. Sgiliau darllen Saesneg trwy Reading Eggs. Defnydd cyson o Google Classroom, Hwb a Kahoot.